**Y nefoedd sy’n datgan ...**

Anodd yw bod yn wyddonydd ac yn Gristion. Mynna’r addysg wyddonol bod dyn yn canfod tystiolaeth uniongyrchol ddiamheuol cyn derbyn neu gredu unrywbeth o gwbl. Ond mae'r ffordd Gristnogol yn seiliedig ar ffydd: drwy ffydd y daw'r bywyd Cristnogol yn fyw. Yn ddiweddar, fe welais i ffilm ar Netflix o'r enw "A Week Away". "Musical" yw'r ffilm, yn sôn am wythnos ym mywydau criw o bobl ifanc mewn "summer camp" Cristnogol yn yr UD. Daw bachgen, sydd wedi colli ei ffordd am amryw o resymau, i weld fod 'na ffordd well. Mae’n gwneud ffrindiau gorau newydd, ac yn syrthio mewn cariad mewn mwy nag un ystyr. Mewn un olygfa, mae'r ddau brif gymeriad, y bachgen a'i gariad-i-fod, yn siarad am eu teuluoedd a'u ffydd. Esbonia’r ferch ei daliadau fel hyn: "I don't KNOW know; I just choose to believe; I mean, that's faith, right?". Hynny yw, er nad yw hi'n gallu profi tu hwnt i amheuaeth bod ei ffydd yn “iawn”, neu'n “gywir”, eto i gyd y mae wedi "dewis credu". Mor syml, mor drawiadol o syml. Dewis credu. Nid gorfodaeth, na disgwyliad, na fflach o weledigaeth, ... jyst dewis.

Fe wyddom ni ‘gyd mai swydd disgyrchiant neu “gravity” yw tynnu bodau â mas at ei gilydd, a chadw ein traed ar y ddaear yn llythrennol; ychydig yn llai o ddisgyrchiant a byddai Dan Biggar yn llwyddo â chiciau cosb o’i ddwy-ar-hugain ei hun! Gwelir canlyniadau disgyrchiant ym mhobman o’n cwmpas, ond yn syml, ‘does neb yn gwybod beth yn union “yw” disgyrchiant. ‘Does neb yn gwybod ‘chwaith sut a phaham fod disgyrchiant yn “bodoli” yn y lle cyntaf. Gallwn ragweld ei effeithiau heb ei “weld” na’i “ddeall” yn iawn. Disgyrchiant sy’n tynnu popeth â mas ynghyd drwy’n bydysawd cyfan hefyd. Ond awgryma tystiolaeth o delescop Hubble bod ein bydysawd yn ehangu â chyfradd sy’n anghyson â’i fas a disgyrchiant. I esbonio arsylwadau fel rhai Hubble, dyfeisiodd y ffisegydd ddamcaniaeth sy’n cynnwys math newydd o fater o’r enw “dark matter” a math newydd o egni o’r enw “dark energy”. Credwch neu beidio, yn ôl y ddamcaniaeth hon, dim ond 5% o gynnwys ein bydysawd yw’r “mater cyffredin” (cerrig a choed a ‘sgwyddau Alun Wyn Jones) y gwelwn o’n cwmpas. “Mater tywyll” yw rhyw 27%, ac “egni tywyll” yw’r 68% sy’n weddill. Eto’n drawiadaol, mewn brawddeg, ‘does neb yn gwybod beth yn y byd yw “mater tywyll” nag “egni tywyll”. Hynny yw, ‘does neb yn gallu “gweld” na “deall” 95% o gynnwys ein bydysawd. Esboniad arall yw bod ein dealltwriaeth o ddisgyrchiant yn sylfaenol wallus.

Dywedodd y diweddar ffisegydd Carl Sagan un tro bod dyn fel pili-pala sy'n gwibio am ddiwrnod gan feddwl ei fod am fyw am byth. Fel Einstein o’i flaen, dywedodd hefyd fod y gwyddonol a’r ysbrydol yn cydfynd, a bod y gwyddonol yn ffynhonnell o’r ysbrydol: “Wrth gydnabod ein rhan mewn anferthedd o flynyddoedd-golau a hynt yr oesoedd, wrth amgyffred â chymhlethdod, harddwch a chynildeb bywyd, mae’r teimlad arwyrain, hediadol, yr ymdeimlad hwnnw o lawenydd a gostyngeiddrwydd ar y cyd, yn wirioneddol ysbrydol.” Y nefoedd sy’n datgan ...